OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2010 Rhif 1512 (Cy.138)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Rheoliadau Traffordd yr M4 (Man Casglu Tollau Rogiet, Sir Fynwy) (Terfyn Cyflymder 50 mya) 2010

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn gosod terfyn cyflymder o 50 milltir yr awr ar ddarn penodol o Drafffordd yr M4 yn Sir Fynwy.

Mae'r pŵer i wneud rheoliadau o dan adran 17(2) a (3) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 (ac eithrio mewn perthynas â ffyrdd arbennig yn gyffredinol) gan Weinidogion Cymru i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru. Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu'r terfyn cyflymder presennol o 50 milltir yr awr a osodir gan Reoliadau Traffordd yr M4 (Man Casglu Tollau Rogiet, Sir Fynwy) (Terfyn Cyflymder 50 mya) 2005, sy'n ymwneud â rhan o'r darn o drafffordd a lywodraethir gan y Rheoliadau hyn.

Ystyrir bod y terfyn cyflymder 50 milltir yr awr yn rhagofal diogelwch hanfodol er mwyn galluogi traffig i arafu wrth ddynesu at Fan Casglu Tollau Ail Bont Hafren ac uno'n ddiogel o'r bythau toll yn y Man Casglu Tollau.

Ni wnaed asesiad effaith rheoleiddiol llawn ar gyfer yr offeryn hwn gan mai er mwyn diogelwch ar y ffordd y mae'n cael ei wneud ac nid yw'n effeithio ar gostau busnes.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2010 No. 1512 (W.138)

# ROAD TRAFFIC, WALES

## The M4 Motorway (Rogiet Toll Plaza, Monmouthshire) (50 mph Speed Limit) Regulations 2010

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

These Regulations impose a speed limit of 50 miles per hour on a specified length of the M4 Motorway in the County of Monmouthshire.

The power to make regulations under section 17(2) and (3) of the Road Traffic Regulation Act 1984 (except with respect to special roads generally) lies with the Welsh Ministers so far as they are exercisable in relation to Wales. The Regulations revoke the existing 50 miles per hour speed limit imposed by the M4 Motorway (Rogiet Toll Plaza, Monmouthshire) (50 mph Speed Limit) Regulations 2005, which relate to part of the length of motorway governed by these Regulations.

The 50 miles per hour speed limit is considered an essential safety precaution to enable traffic to slow down on the approaches to the Second Severn Crossing Toll Plaza and to merge safely from the toll booths at the Plaza.

A full regulatory impact assessment has not been produced for this instrument as it is made for highway safety reasons and it has no impact on the costs of business.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2010 Rhif 1512 (Cy.138)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Rheoliadau Traffordd yr M4 (Man Casglu Tollau Rogiet, Sir Fynwy)(Terfyn Cyflymder 50 mya) 2010

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *27 Mai 2010* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *3 Mehefin 2010* |
| *Yn dod i rym* | *24 Mehefin 2010* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 17(2) a (3) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), ac wedi ymgynghori â sefydliadau cynrychioliadol yn unol ag adran 134(2)(**2**) o'r Ddeddf honno, yn gwneud y Rheoliadau canlynol.

**Enwi a chychwyn**

**1**. Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 24 Mehefin 2010 a'u henw yw Rheoliadau Traffordd yr M4 (Man Casglu Tollau Rogiet, Sir Fynwy) (Terfyn Cyflymder 50 mya) 2010.

**Dehongli**

**2**. Yn y Rheoliadau hyn–

ystyr "y drafforddd" ("*the motorway*") yw Traffordd Llundain i Dde Cymru (yr M4).

**Gosod terfyn cyflymder**

**3**. Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y rhan honno o gerbytffordd y drafforddd tua'r gorllewin yn Rogiet yn Sir Fynwy sy'n estyn o bwynt 800 o fetrau i'r dwyrain o linell ganol trosbont Heol yr Orsaf hyd at bwynt 752

(**1**) 1984 p.27. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Deddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(**2**) Diwygiwyd adran 134(2) gan Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991, adran 168(1), Atodlen 8, paragraff 77.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2010 No. 1512 (W.138)

# ROAD TRAFFIC, WALES

## The M4 Motorway (Rogiet Toll Plaza, Monmouthshire) (50 mph Speed Limit) Regulations 2010

| | |
|---|---|
| *Made* | *27 May 2010* |
| *Laid before the National Assembly for Wales* | *3 June 2010* |
| *Coming into force* | *24 June 2010* |

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred upon them by section 17(2) and (3) of the Road Traffic Regulation Act 1984(**1**) and after consultation with representative organisations in accordance with section 134(2)(**2**) of that Act, make the following Regulations.

**Title and commencement**

**1**. These Regulations come into force on 24 June 2010 and their title is The M4 Motorway (Rogiet Toll Plaza, Monmouthshire) (50 mph Speed Limit) Regulations 2010.

**Interpretation**

**2**. In these Regulations–

"the motorway" means the London – South Wales Motorway (M4).

**Imposition of speed limit**

**3**. No person shall drive any motor vehicle at a speed exceeding 50 miles per hour on that area of the westbound carriageway of the motorway at Rogiet in the County of Monmouthshire which extends from a point 800 metres east of the centre line of Station Road

(**1**) 1984 c.27. By virtue of S.I. 1999/672, article 2 and Schedule 1, and paragraph 30 of Schedule 11 of the Government of Wales Act 2006, these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

(**2**) Section 134(2) was amended by the New Roads and Street Works Act 1991, section 168(1), Schedule 8, paragraph 77.

o fetrau i'r gorllewin o linell ganol trosbont Heol yr Orsaf.

overbridge to a point 752 metres west of the centre line of Station Road overbridge.

**Dirymiad**

**4**. Dirymir Rheoliadau Traffordd yr M4 (Man Casglu Tollau Rogiet, Sir Fynwy) (Terfyn Cyflymder 50 mya 2005(**1**) drwy hyn.

**Revocation**

**4**. The M4 Motorway (Rogiet Toll Plaza, Monmouthshire) (50 mph Speed Limit) Regulations 2005(**1**) are hereby revoked.

*Ieuan Wyn Jones*

Y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru

Minister for the Economy and Transport, one of the Welsh Ministers

27 Mai 2010

27 May 2010

©ⓗ Hawlfraint y Goron 2010

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2010

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

(**1**) O.S. 2005/1450 (Cy.113).

(**1**) S.I. 2005/1450 (W.113).

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2010 Rhif 1512 (Cy.138)

## TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Rheoliadau Traffordd yr M4 (Man Casglu Tollau Rogiet, Sir Fynwy) (Terfyn Cyflymder 50 MYA) 2010

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2010 No. 1512 (W.138)

## ROAD TRAFFIC, WALES

The M4 Motorway (Rogiet Toll Plaza, Monmouthshire) (50 MPH Speed Limit) Regulations 2010

£4.00

W704/06/10 ON